

# Cyfle i wella'ch ysgrifennu academaidd yn Gymraeg gyda'r Tiwtor Sgiliau Cyfrwng Cymraeg, Tamsin Davies

## Gwasanaeth cyfrinachol am ddim i dy helpu i wella dy sgiliau ysgrifennu yn Gymraeg

Stryglo gyda strwythur? Gofidio am gamgymeriadau? Aralleirio a chrynhoi'n chwalu dy ben? Heb ysgrifennu'n Gymraeg ers blynyddoedd? Eisiau gloywi eich traethawd hir? Neu jyst ddim yn siŵr ble i ddechrau?

Does dim ots am dy lefel astudio – mae croeso i fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth o'r flwyddyn sylfaen i lefel PhD ddefnyddio'r gwasanaeth.

Mewn sesiynau un-i-un, mae Tamsin yn gallu helpu i:

- Strwythuro dy ddadl
- Ysgrifennu rhyddiaith sy'n fwy clir ac yn argyhoeddi dy ddarllenwyr
- Ailysgrifennu a golygu
- Cynllunio a rheoli amser
- Mynd i'r afael â'r terfyn geiriau / amser
- Meddwl yn feirniadol
- Aralleirio a chrynhoi (o'r Saesneg neu Gymraeg i'r Gymraeg)
- Osgoi camgymeriadau ysgrifennu cyffredin
- Lawrlwytho a defnyddio arfau iaith cyfrifiadurol (termau a gramadeg)
- Gwella dy hyder wrth ysgrifennu yn Gymraeg

Rwyt ti'n gallu dewis rhwng sesiwn hanner awr neu awr o hyd. Mae sesiynau ar gael ar Teams neu wyneb-yn-wyneb.

I wneud apwyntiad, anfona e-bost i gael dolen archebu: ted@aber.ac.uk

**Noder: Mae sesiynau Tamsin yn Gymraeg. I gael cymorth ag ysgrifennu cyfrwng Saesneg, cysyllta â'r Cymrawd Ysgrifennu'r Gronfa Lenyddol Frenhinol, Samantha Wynne-Rhydderch ar samantha.wynne-rhydderch@rlfeducation.org.uk**